# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5**

Dyddiad: Dydd Mercher, 3 Mai 2023

Amser: 09.02 - 12.37

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13348

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mark Isherwood AS (Cadeirydd)<br>Mabon ap Gwynfor AS<br>Natasha Asghar AS<br>Mike Hedges AS |
| Tystion: | John Cunliffe<br>John Gallanders<br>Dr Rosetta Plummer<br>Shereen Williams |
| Archwilio Cymru: | Adrian Crompton (Archwilydd Cyffredinol Cymru)<br>Dave Thomas |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Owain Davies (Ail Glerc)<br>Philip Lewis (Ymchwilydd)<br>Lisa Hatcher (Dirprwy Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS

## 2 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol at y Cadeirydd am faterion a oedd yn codi o'r gwaith craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22**

**2.2 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Cadeirydd ynghylch Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol 3, 4 a 5 ar y Bil Caffael.**

**2.3 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol 3, 4 a 5 ar y Bil Caffael**

**2.4 Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

## 3 Penodiadau cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan John Cunliffe a John Gallanders fel rhan o'i ymchwiliad i Benodiadau Cyhoeddus.

## 4 Penodiadau cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth 2

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Shereen Williams a Dr Rosetta Plummer fel rhan o'i ymchwiliad i Benodiadau Cyhoeddus.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Penodiadau cyhoeddus: Trafod y dystiolaeth a gafwyd.

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

## 7 Adroddiad Archwilio Cymru: Gwasanaethau Orthopedig

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad.

## 8 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Papur Cwmpasu

8.1 Trafododd y Pwyllgor y papur cwmpasu.